

Cyfnod A: Cyfarfod tymhorol y clystyrau i gynllunio cynhwysiant

Pwrpas y cyfarfodydd yma yw gwella cyfleoedd i ysgolion fel sefydliadau dysgu trwy ddulliau cymorth ysgol i ysgol, wedi'u hwyluso a'u gwella gyda mewnbwn arbenigol.

Bydd y cyfarfodydd yma'n cael eu cynnal bob tymor ac yn para oddeutu 3 awr. Byddan nhw'n cael eu trefnu a'u hwyluso gan y Gwasanaeth Cynnal Dysgu, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.

Dylai Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli fod yn bresennol yn y cyfarfodydd yma.

Cynnwys y Cyfarfodydd:

- Gwerthuso'r camau a gafodd eu cymryd yn dilyn cyngor a gafodd ei roi yn ystod yr ymweliad cychwynnol.
- Nodi materion systemig cyffredin a meysydd o ddiddordeb, datblygu cynlluniau gweithredu ar y cyd (Rhannu materion systemig allweddol ac annog datrys problemau ar y cyd).
- Rhannu arfer da mewn perthynas â gwaith sy'n cael ei wneud yn y clwstwr mewn perthynas â chynhwysiant.
- Adolygu Cynlluniau Gweithredu blaenorol (Beth sydd wedi gweithio, a'r hyn sydd angen ei wneud) ac ystyried y camau nesaf.

Cyfnod B: Gwaith Systemig a Hyfforddiant

Cefnogaeth ddwys â therfyn amser i ysgolion lle mae blaenoriaeth gwella ysgolion wedi'i nodi - bydd cynllun gweithredu gyda chanlyniadau wedi'u nodi ac adolygiad.

Mynediad at ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant trwy'r rhaglen hyfforddiant Mynediad a Chynhwysiant neu hyfforddiant pwrpasol o drefnu hynny.

Cyfnod C: Cymorth, Datrys Problemau a Chyngor (SPA) - Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae ysgolion yn trefnu atgyfeiriad i SPA Anghenion Dysgu Ychwanegol i gychwyn atgyfeiriad unigol i'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu. Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei drefnu drwy'r porth proffesiynol. Bydd angen tystiolaeth o weithrediadau'r ysgol yng nghyfnod A a B wrth fynd i'r afael ag anghenion unigol.

| Ar gyfer pob atgyfeiriad |
|--|
| Gorfodol <ul style="list-style-type: none">• Proffil un dudalen• Lefelau academaidd cyfredol a chynnydd dros amser• Tystiolaeth o weithrediadau Cyfnodau A a B• Tystiolaeth o fynediad at hyfforddiant/DPP perthnasol• Tystiolaeth o weithredu addasiadau rhesymol a/neu addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel (Cyngor a gafodd ei roi i'r athro gan y Cydlynwdd Anghenion Dysgu Ychwanegol)• CAU / cynllun chwarae / CYU / cynllun gofal iechyd gydag o leiaf un cyfnod o weithredu ac adolygu |

Llwybr Gwasanaeth Cynnal Dysgu RhCT 2019/20

| <p>Dewisol</p> <ul style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o gamau sydd wedi'u cymryd yn unol â chyngor gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r plentyn (e.e. iechyd, ymyrraeth blynyddoedd cynnar, Seicoleg Addysg) Asesiad risg | | | | | |
|--|---|---|-----------------------------|------------------------------------|---|
| Anghenion Penodol | | | | | |
| Cymhleth | Anawsterau Dysgu Penodol | Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu gan gynnwys Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig | Synhwyrdd | Anabledd corfforol / Meddygol | Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol |
| Asesiadau diagnostig llythrennedd/rhifedd | Asesiad ffonolegol Asesiad ffonig Geiriau sy'n cael eu gweld yn aml | Asesiad Language Link. Rhestr wirio cyfathrebu cymdeithasol | Gwybodaeth Iechyd Arbenigol | Hunanasesiad yr ysgol o hygyrchedd | Asesiad risg Gwybodaeth olrhain |

Mae Athrawon/Swyddogion Arbenigol/Cynghori yn rhoi cyngor dros y ffôn, yn recordio'r sgwrs (copi o'r cofnod yn cael ei roi i'r ysgol) ac yn llunio barn broffesiynol ynghylch y gofyniad am ymweliad ysgol (Cyfnod C) neu'n uniongyrchol i'r hyfforddiant yng Nghyfnod B.

Ymweliad â'r ysgol

Efallai y bydd ymweliad yn dilyn galwad SPA. Bydd pwrpas yr ymweliad yn cael ei nodi yn y cofnod SPA Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rhai meysydd posibl:

- Ymgynghoriad Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol / UDRh
- Ymgynghoriad Athro / Rhiant
- Asesu'r disgybl neu arsylwi arno

Bydd cofnod ysgrifenedig byr o'r ymweliad yn cael ei roi i'r ysgol yn amlinellu'r canlynol:

- Gwybodaeth gefndirol
- Arsylwadau
- Beth sy'n gweithio'n dda
- Meysydd o bryder
- Ffordd ymlaen - bydd hyn yn nodi gweithrediadau yn y dyfodol
 - Dim camau pellach
 - Dilyn cyngor - trefnu ymweliad dilynol ar amser cyfleus (hanner tymor, diwedd y tymor)
 - Athro'n gwneud argymhelliad i banel y Gwasanaeth Cynnal Dysgu ar gyfer cyfranogiad tymor hwy
 - Synhwyrdd yn unig: tariff cymorth yn cael ei gytuno a'i roi ar waith

Llwybr Gwasanaeth Cynnal Dysgu RhCT 2019/20

I ofyn am gyfranogiad pellach gan y Gwasanaeth Cynnal Dysgu, bydd disgwyl i ysgolion ddarparu tystiolaeth sy'n dangos y camau sydd wedi'u cymryd ac effaith y cyngor ffordd ymlaen.

Cymorth dwys

Yn dilyn yr ymweliad cychwynnol, gall yr athro wneud argymhelliad i'r Panel Cynnal Dysgu am gyfranogiad dwysach. Bydd natur, hyd ac amllder y cymorth yma yn cael eu pennu gan y Panel Cynnal Dysgu.

Bydd y cymorth fel arfer yn un neu fwy o'r canlynol:

- Cynllun gweithredu yn ymwneud â'r disgybl
- Cynllun gweithredu yn ymwneud â gwella gallu'r ysgol
- Coetsio / cyngor / hyfforddiant penodol i athrawon / staff cymorth
- Addysgu/ymyrraeth uniongyrchol â therfyn amser

Bydd cytundeb ynghylch amcanion, amserlenni a dull gwerthuso ar gyfer y gwaith cytunedig.

Cyfnod D: Cais am ddarpariaeth arbenigol

Bydd Cam D yn gofyn am dystiolaeth o sut mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i Gynllun Gweithredu / argymhellion Cyfnod C. Dylai fod cytundeb rhwng y Gwasanaeth Cynnal Dysgu a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg bod camau priodol wedi'u cymryd yn unol â meini prawf lleoli arbenigol a phwy fydd yn cynorthwyo Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol i ystyried trylwyrdd eu hymateb graddedig a thystiolaeth briodol wrth baratoi cais i ddarpariaeth arbenigol (SPR 1) a SPR2 dilynol.

Asesiad Statudol

Gan ddefnyddio'r meini prawf asesu statudol, bydd y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn cynghori'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol wrth baratoi'r cais am asesiad statudol. Os bwrw ymlaen yw'r penderfyniad, bydd y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn darparu gwybodaeth yn atodiad F. Os yw datganiad yn cael ei ddyfarnu, gall y Gwasanaeth Cynnal Dysgu gymryd rhan mewn cyfarfodydd gweithredu datganiadau ac fel sydd wedi'i amlinellu yn narpariaeth y datganiad. Bydd y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn mynychu adolygiadau blynyddol fel y bo'n briodol lle mae newidiadau sylweddol i'w hystyried yn y datganiad. Dylid gwneud unrhyw geisiadau am gymorth i ddisgyblion sydd â datganiad trwy'r porth proffesiynol.